

## JAMES, JOHN (1779 - 1864), y gweinidog Undodaidd cyntaf yn sir Aberteifi, ac ysgolfeistr

**Enw:** John James

**Dyddiad geni:** 1779

**Dyddiad marw:** 1864

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** y gweinidog Undodaidd cyntaf yn sir Aberteifi, ac ysgolfeistr

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg

**Awdur:** Thomas Oswald Williams

Ganwyd dydd Mercher y Llundw 1779 yng Nglynderi ar dir Rhydybenne, Llangeler, Sir Gaerfyrddin. Ar restr tanysgrifwyr *Telyn Dewi* ceir ei enw fel disgybl [Davis Castellhywel](#). Yn 1802 ceisiodd am dderbyniad i Goleg Caerfyrddin, ond fe'i gwrthodwyd (yn ei dyb ef) am ei fod yn Undodwr. Yr un flwyddyn fe'i derbyniwyd i academi Exeter dan Kenrick a Bretland. Ni bu yma ond 18 mis gan feddwl mynd i Goleg York, ond darbwylodd [Charles Lloyd](#) ef i dderbyn galwad oddi wrth eglwysi Undodaidd ifanc Ceredigion. Dechreuodd ar waith ei fywyd yn 1803-4 gan agor ysgol yn Ystrad. Yn Awst 1814 derbyniodd alwad o Gellionnen. Addawodd ofalu amdani a phregethu yno unwaith y mis. Yn gynnar yn 1815 derbyniodd alwad o Benybont-ar-Ogwr a Betws, a bu yma o 26 Mai 1816 hyd 26 Mai 1818 (ac yn achlysurol hyd 22 Tachwedd 1818). Rhoes Benybont i fyny gan wasanaethu Gellionnen yn unig. Yr oedd yn ysgolfeistr llwyddiannus a phregethwr huawdl. Dywedir iddo siomi na chafodd ei apwyntio yn athro yng Ngholeg Caerfyrddin yn 1814 a bod yn ei fryd ef a [David Davis](#) (Castellnedd) gychwyn academi yng Nghastellnedd, ond ni ddaeth dim o'r cynllun. Cyfieithodd yn Gymraeg holwyddoreg neu gatecism Dr. Priestley, 1805; a dau draethawd, y cyntaf ar y geiriau *Prynedigaeth, Pridwerth, Pwrcas ...* a'r ail ar y *Geiriau a fabwysiadir yn y Testament Newydd agydyntyn dwyn perthynas i Ebyrth*, 1807. Yn 1808-11 cyhoeddodd *Ymfyniad am Sylfaen yr Athrawiaeth o Haeddiant Crist* mewn pedwar rhifyn. Yn 1824 cyhoeddodd ei gyfieithiad, *Ymfyniad tawel i'r Athrawiaeth Ysgrythurol am Berson Crist*, gan Thomas Belsham. Bu farw 1 Medi 1864 yn 85 mlwydd oed a chladdwyd ef ym mynwent Pantydefaid.

### Awdur

Y Parchedig Thomas Oswald Williams, (1888 - 1965)

### Ffynonellau

*Yr Ymfynnydd*, 1864, 244; 1895, 49; 1890, 1891, 1892, 1897 - dau ddwsin o ysgrifau gan T.T.; Awst 1938, 124-5; Awst 1942, 118-23

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [73640589](#)

Wikidata: [Q20733467](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

